**PRAWF-DDARLLEN (81)**

**ATEBION**

1. Tanlinellwch yr arddodiaid gwallus yn y darn isod ac yna rhowch y ffurfiau cywir yn y llinellau oddi tano.

   Dywedais wrtho'r cogydd i beidio â rhoi cnau mewn fy mwyd. Alla' i ddim bwyta cnau. Fi gyda alergedd.

   Ffurfiau cywir:
   (i) Dywedais wrth
   (ii) yn fy mwyd
   (iii) Mae gennyf/Mae gen i ...

2. Mae rhywbeth o'i le ar y rhestr yn y frawddeg isod. Tanlinellwch y darn gwallus ac yna rhowch y ffurf gywir ar y llinell oddi tano.

   Cyn gadael am y dref, rhoddais yr afr, y ci a chath yn ddiogel yn y sied.

   Cywiriad: a'r gath

3. Beth yw lluosog y gair isod? Tynnwch linell i gysylltu'r gair lluosog â'r gair unigol.

   llwy — llwyau

4. Mae'r darn canlynol wedi cael ei ysgrifennu yn yr amser presennol neu ddyfodol. Newidiwch y darn i'r gorffennol drwy newid y berfau.

   Neithiwr, aethom (ni) i weld tîm y Scarlets yn chwarae yn erbyn tîm Munster. Roedd (yn) rhaid i'r tîm cartref ennill er mwyn aros ar frig y tabl ond yn anffodus, nid oedd rhai o'r chwaraewyr allweddol yn chwarae oherwydd anafiadau.